O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1636 (Cy. 210)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Ffin Sirol yn Halfway i Gylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*22 Mehefin 2012*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Ffin Sirol yn Halfway i Gylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o gefnffordd yr A40 yn Sir Powys rhwng y ffin sirol yn Halfway a Chylchfan Tarell, Aberhonddu, a ddisgrifir yn Atodlen y Gorchymyn hwn.